The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010007 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Siân Evans |
| **Dyddiad** | 11 Ionawr 2018 |
| **Cyfarfod â** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Hannah Pratt (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir)<br>Helen Lancaster (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir)<br>Richard Kent (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir)<br>Chris White (Arweinydd Cynllunio Seilwaith)<br>Kay Sully (Rheolwr Achos)<br>Hefin Jones (Rheolwr Achos)<br>Siân Evans (Swyddog Achos)<br>**Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>Henry Aron<br>Iwan Williams<br>Scott Leighton<br>Gail Butterill<br>Bryn Griffiths<br>Holly Self |
| **Amcanion y cyfarfod** | I drafod diweddariad ar brosiect Wylfa Newydd |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Crynodeb o bwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd**

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r CNC (neu eraill) ddibynnu arno.

**Diweddariad ar y Prosiect gan Gyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd ar gyfer prosiect Gorsaf Gynhyrchu Wylfa Newydd) wedi cyflwyno cais i CNC am drwydded sylweddau ymbelydrol. Daw'r ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn i ben ar 14 Ionawr 2018. Gwnaed cais am wybodaeth Atodlen 5 gan CNC, ac mae'r Ymgeisydd wedi ymateb iddo. Dywedodd CNC fod rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ganddynt yn darparu

gwybodaeth sy'n fwy perthnasol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymatebion hyn gael eu hanfon at yr Ymgeisydd oherwydd, hyd nes y cyflwynir y cais, nid oes gan yr Arolygiaeth unrhyw bwerau ffurfiol i gymryd y rhain i ystyriaeth.

Mae CNC yn deall y bydd trwydded adeiladu a thrwyddedau amgylcheddol gweithredol a'r drwydded forol yn cael eu cyflwyno i alinio â chyflwyniad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, ar ddiwedd mis Mawrth 2018. Mae CNC wedi cynghori'r ymgeisydd y dylid cyflwyno ceisiadau am Drwyddedau Amgylcheddol o leiaf ddau fis cyn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, a nododd fod risg erbyn hyn na fyddant yn gallu cyrraedd cam penderfyniad drafft ar y trwyddedau yn ystod archwiliad o gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Ailadroddodd CNC fod y cam Penderfyniad Drafft a'r ymgynghoriad cysylltiedig yn berthnasol i'r Trwyddedau Amgylcheddol yn unig.

Mae CNC yn trafod cwmpas trwydded tynnu dŵr gyda'r Ymgeisydd ar gyfer gweithgarwch dad-ddyfrio. Nid oes amserlen ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno'r drwydded tynnu dŵr ond mae'n debygol y bydd yn cael ei chyflwyno ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Gofynnodd CNC a fyddai'r Arolygiaeth yn gofyn am farn CNC ar y trwyddedau yn ystod Archwiliad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'r Awdurdod Archwilio yn debygol o ofyn am ddiweddariadau ar gynnydd y ceisiadau am drwyddedau/trwydded forol yn ystod yr Archwiliad, a p'un ai oes unrhyw resymau mewn egwyddor pam na ellid eu rhoi. Cynghorodd CNC mai eu hamcan strategol yw dod i benderfyniad drafft (a'r cyfnod cysylltiedig o ymgynghori cyhoeddus) ar gyfer ceisiadau am Drwyddedau y maent yn gorff cyfrifol ar eu cyfer erbyn diwedd yr Archwiliad, er bod hyn yn ddibynnol ar ansawdd y ceisiadau a dderbynnir.

Dywedodd CNC fod yr Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno un gyfres o asesiadau ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob caniatâd a thrwydded. Cyflwynir dogfen gyfeirio ochr yn ochr â hyn i hwyluso dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ar gyfer pob cais.

Cynghorodd CNC, mewn perthynas â'r Drwydded Forol, y gallant wneud cais am eithriad i'r gofyniad iddynt gyflawni Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y gwaith hwn, yn unol â Rheoliad 10(1)(b) Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2007 (Rheoliadau 2007). Mae CNC yn bwriadu penderfynu a ddylid gwneud hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

Cynghorodd CNC y bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn gwneud cais i amrywio'r drwydded yng Ngwaith Trin Dŵr Cymru Welsh Water yng Nghemaes, oherwydd cynnydd mewn gollyngiadau carthffosiaeth o ganlyniad i weithwyr adeiladu ar y safle a llety gweithwyr ar y safle. Mae'r dŵr yn y lleoliad hwn wedi methu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ac felly bydd angen i unrhyw drwydded newydd gymryd hyn i ystyriaeth. Cynghorodd yr Arolygiaeth y mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio eisiau sicrwydd na fydd datblygiad y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu yn gwneud y sefyllfa bresennol yn waeth ac mae'n bosibl y bydd yn holi cwestiynau i'r Ymgeisydd ar y mater hwn. Hefyd, bydd yn berthnasol i effeithiau cyfunol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Cyfeiriodd CNC at y cynnig arfaethedig i gynnwys safleoedd iawndal mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn ffin llinell goch Gorchymyn

Caniatâd Datblygu'r Ymgeisydd, y bydd yr Ymgeisydd yn ymgynghori yn eu cylch ym mis Ionawr. Bydd CNC yn rhoi cyngor statudol i'r Ymgeisydd ar ddigonolrwydd a rheolaeth y safleoedd hyn. Mae safleoedd iawndal mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyfagos i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig presennol a bydd angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddangos na fydd y gwaith adeiladu'n cael unrhyw effaith niweidiol ar yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn.

Dywedodd CNC eu bod wedi cwblhau eu hadolygiad o ddogfennau cais drafft ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu'r Ymgeisydd ac wedi rhoi adborth helaeth i'r Ymgeisydd ym mis Hydref/Tachwedd 2017. Cynghorodd CNC, fel Corff Cadwraeth Natur Statudol Cymru, nad oedd digon o dystiolaeth o fewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Drafft Cysgodol yr Ymgeisydd i gytuno â chasgliad yr Ymgeisydd na fydd unrhyw effaith niweidiol ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn. Mae CNC o'r farn y gallai fod angen i'r Ymgeisydd werthuso mesurau atal/lliniaru pellach; safleoedd amgen, mesurau cydbwyso a chyflwyno achos dros resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI). Mae'r Ymgeisydd wedi cynghori CNC eu bod yn tybio y bydd yr Archwiliad yn dechrau ym mis Medi ac mae CNC yn gobeithio cael Datganiad Tir Cyffredin terfynol â'r Ymgeisydd yn ei le erbyn hynny.

Cyfeiriodd CNC at ollyngiadau o waith adeiladu i fyny'r afon o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Cemlyn. Nid oes digon o wybodaeth sylfaenol i asesu'r effaith ar nodwedd y morlyn hallt. Dywedodd CNC eu bod yn deall na fydd yr Ymgeisydd yn dilyn yr opsiwn hwnnw ond bydd yn gorbwmpio/gollwng mewn man arall er mwyn osgoi'r effaith ar ansawdd dŵr a bydd yn dychwelyd y draeniad i gyflwr tebyg wedi i'r adeiladu ddod i ben. Byddai angen parhau i ystyried effeithiau newidiadau mewn llif o ganlyniad i orbwmpio ond byddai hynny'n lleihau pryderon ynghylch effeithiau ar ansawdd dŵr a gaiff ei ryddhau i fyny'r afon o Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn.

Mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, dywedodd CNC y gallai'r Datblygiad a Gynigir achosi dirywiad yng nghorff dŵr arfordirol Ynysoedd y Moelrhoniaid ac yng nghorff dŵr daear Eilaidd Ynys Môn ac mae'n deall bod yr Ymgeisydd yn debygol o ddod i'r casgliad hwn yn eu hasesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ar hyn o bryd, mae CNC yn rhoi sylwadau ar Adroddiad Erthygl 4.7 drafft yr Ymgeisydd a fydd yn cyd-fynd â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Dywedodd CNC y byddant yn cyfeirio at EN-1 a EN-6 i hysbysu eu hasesiad a darpariaethau rhanddirymiad Erthygl 4.7. Bydd CNC yn cyflwyno e-bost gan dyst arbenigol ar y mater i'r Arolygiaeth.

Dywedodd CNC eu bod wedi ymateb i ymgynghoriadau ar y ddau gais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref a gyflwynwyd i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer gwelliannau i'r A5025 a pharatoi a chlirio safleoedd. Mae CNC o'r farn y dylid cynnwys y rhain yn yr un asesiad o'r effaith amgylcheddol a'r asesiad Rheoliadau Cynefinoedd â gweddill y prosiect. Bydd hyn yn sicrhau y gellir asesu'r effeithiau cyfunol ar ansawdd aer, yng ngoleuni dyfarniad yr Uchel Lys ar Gyngor Dosbarth Wealden. Hefyd, cyfeiriodd CNC at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a chynghorodd y byddai angen mesurau lliniaru pellach er mwyn osgoi effeithiau sŵn/aflonyddwch ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn.

Gofynnodd CNC (fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol Cymru) a fyddai'r Awdurdod Archwilio eisiau ymgynghori â hwy ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd. Cynghorodd yr Arolygiaeth y bydd pob parti'n cael cyfle i wneud sylwadau ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd. Fel

arfer, bydd hyn yn digwydd tua phedwaredd neu bumed mis yr Archwiliad a bydd y dyddiad cau yn cael ei osod allan yn amserlen yr Archwiliad.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Cytunodd CNC a’r Arolygiaeth i gynnal cyfarfod pellach cyn i’r Ymgeisydd gyflwyno eu cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Wedi i’r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno i’r Arolygiaeth, ni fyddai cynnal cyfarfodydd pellach gyda CNC yn briodol, ond gall y tîm achos roi cyngor ar broses Deddf Cynllunio 2008.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai CNC barhau i ymgysylltu â’r Ymgeisydd yn ystod yr Archwiliad.